

<b>CYFARFOD</b>	<b>Y CYNGOR LLAWN</b>
<b>DYDDIAD</b>	<b>7fed MAWRTH 2019</b>
<b>TEITL YR ADRODDIAD</b>	<b>CALENDR PWYLLGORAU 2019/20</b>
<b>PWRPAS</b>	<b>MABWYSIADU CALENDR PWYLLGORAU 2019/20</b>
<b>AWDUR</b>	<b>GERAINT OWEN PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD</b>

## **1. CEFNDIR**

- 1.1 Cyhoeddir calendr o ddyddiadau cyfarfodydd pwyllgorau'r Cyngor ar gyfer y flwyddyn i ddod er mwyn cynorthwyo'r Cyngor, ei Aelodau a'r cyhoedd i gynllunio ymlaen ar gyfer dyddiadau ac amseroedd prif gyfarfodydd y Cyngor.
- 1.2 Nodir mai dyma'r dyddiadau yr ydym yn eu rhaglennu ar hyn o bryd, ond gall fod angen cyfarfodydd eraill er mwyn gallu gweithredu busnes y Cyngor.
- 1.3 Tra gwneir pob ymdrech i osgoi cynnal cyfarfodydd yn ystod gwyliau'r ysgol, nid yw hynny yn bosib ym mhob achlysur er mwyn sicrhau parhad gwasanaeth y Cyngor.
- 1.4 Bu ymgynghori ar fersiwn drafft calendr pwyllgorau 2019/20 gydag Aelodau y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, ac hefyd gyda Pharc Cenedlaethol Eryri er mwyn sicrhau nad oedd gwrthdaro rhwng cyfarfodydd y ddau sefydliad.

## **2.0 CALENDR PWYLLGORAU 2019/20**

- 2.1 Cyflwynir trosodd galendr ar gyfer dyddiadau Cyfarfodydd y Cyngor ar gyfer 2019/20.
- 2.2 Noder fod trafodaethau wedi digwydd mewn rhai pwyllgorau i ystyried eu rhaglen waith flynyddol ynghyd a'r angen am nifer penodol o gyfarfodydd mewn blwyddyn bwrdeistrefol. Yn sgil y trafodaethau hyn, mae'r niferoedd cyfarfodydd a raglennir wedi eu rhesymoli ar gyfer y pwyllgorau a ganlyn:
  - Pwyllgor Safonau
  - Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
  - Y Cabinet

**3. ARGYMHELLIAD**

Gofynnir i'r Cyngor fabwysiadu y Calendr Pwyllgorau ar gyfer 2019/20.